WILLIAMSON, ROBERT (MONA) ('Bardd Du Môn'; 1807-1852)

Enw: Robert (Mona) Williamson
Ffugenw: Bardd Du Môn
Dyddiad geni: 1807
Dyddiad marw: 1852
Priod: Jane Williamson (née Roberts)
Plentyn: Owen Williamson
Plentyn: Owen Williamson
Rhiant: Dorothy Williamson
Rhiant: Owen Williamson
Rhyw: Gwryw
Awduron: William Llewelyn Davies, Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Helygen, Sir y Fflint, mab Owen Williamson, garddwr, a Dorothy ei wraig. Symudodd y teulu pan oedd y mab tua 12 oed i Lanwnda, Sir Gaernarfon. Ni chafodd ysgol fel y cyfryw eithr rhoes offeiriad y plwyf addysg iddo a daeth yn hyddysg mewn Saesneg ac i raddau helaeth mewn Ffrangeg. Bu'n cadw ysgol mewn gwahanol fannau yn Sir Gaernarfon a sir Ddinbych, ac, yn ddiweddarach, yn Niwbwrch, sir Fôn, lle y daeth yn gyfeillgar â'r offeiriad, Henry Rowlands, a oedd yn ddisgynnydd o Henry Rowlands, awdur *Mona Antiqua*, ac y priododd â Jane Roberts. Cystadleuodd yn eisteddfod Aberffraw, 1849, ar destun yr awdl, sef ' Y Greadigaeth,' ond ni ddaeth yn gyntaf. Ymysg ei gyhoeddiadau y mae *Awdl y Greadigaeth* (Caernarfon, 1849); *Awdl ar yr Adgyfodiad* (Caernarfon, 1851); *Y Nadolig; Pryddest ar Enedigaeth Crist* (Rhyl, 1854); *Y Garddwr Cymreig* (Caernarfon, d.d.); *Pryddest ar Ddoethineb Duw* (Caernarfon, d.d.); *Hunan-Gyfarwyddyd i Gymro ddysgu Darllen, Ysgrifennu, a Deall yr laith Seisoneg* (Caernarfon, tri arg. o leiaf); a *Gramadeg Teirieithog, neu leithiadur Cymraeg-Saesonaeg-Ffrancaeg*. Bu farw 20 Mai 1852 a'i gladdu ym mynwent eglwys S. Pedr, Niwbwrch.

Mab iddo oedd OWEN WILLIAMSON (1840 - 1910), yntau'n ysgolfeistr a llenor; ganwyd yn Niwbwrch 21 Tachwedd 1840. Bu yn y coleg hyfforddi yng Nghaernarfon, ac yn athro yn ysgol yr eglwys ac wedyn yn yr Ysgol Frutanaidd ym mhlwyf Llangeinwen. Bu farw yn Niwbwrch, 22 Rhagfyr 1910, a chladdwyd yno. Sgrifennodd lawer i'r cylchgronau, a gadawodd amryw lyfrau anghyhoedd. Cyhoeddodd hanes Niwbwrch (c. 1895), a rhamant hanesyddol, *Ceris y Pwll*, 1908.

Cymerwyd y dyddiadau oddi ar garreg ei fedd. Ond tystia rheithor Niwbwrch mai ar 26 Chwefror, 1837 y bedyddiwyd yr unig Owen Williamson sydd yn rhestr bedyddiadau'r plwyf. Efallai mai brawd, a fu farw cyn geni'r llenor, oedd hwn; claddwyd rhyw ' Owen Williams,' yn 3 oed, yn Awst 1840. Claddwyd y llenor 24 Rhagfyr 1910, a rhoddir ei oedran yn 70 - gan gytuno felly â'r garreg. Os felly y mae, nid yn Niwbwrch y bedyddiwyd ef.

Awduron

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Y Geninen (Gwyl Dewi), 1895, 9-13

Cymru (O.M.E.), iii, 197 et sqq

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 78549596

Wikidata: Q28361697

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu